

Wales COVID-19 Evidence Centre
Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales



# Adolygiad cyflym o strategaethau i gefnogi dysgu a llesiant ymhlith dysgwyr 16-19 oed sydd wedi cael bylchau sylweddol yn eu haddysg o ganlyniad i'r pandemig COVID-19



Dyddiad: 7fed Rhagfyr

Deborah Edwards, Judith Carrier, Judit Csontos, Elizabeth Gillen, Maggie Hendry

WCEC / WCEBC

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Cefndir y Cwestiwn

- Fe achosodd y pandemig COVID-19 **amhariad sylweddol** ar **addysg** ar bob lefel

- Er bod hyn wedi effeithio ar addysg dysgwyr o bob oedran, mae **dysgwyr 16-19 oed** mewn **cyfnod hanfodol yn eu bywydau** wrth iddyn nhw bontio i astudiaeth bellach neu gyflogaeth[1]

- Felly bydd angen **mentrau cenedlaethol a rhyngwladol** i gefnogi ysgolion a cholegau i helpu dysgwyr 16-19 oed **i ddal i fyny â'r dysgu y maen nhw wedi'i golli**

- Mae nifer o **strategaethau dal i fyny wedi'u hawgrymu**, gan gynnwys ysgolion haf, diwrnodau ysgol estynedig, rhaglenni tiwtora ac arferion eraill[2]

- Mae hefyd yn bwysig ystyried **iechyd meddwl pobl ifanc** yng nghyd-destun COVID-19[3]

[1] Holt-White a Culliane 2021. [2] Crenna-Jennings 2021. [3] Cymdeithas Colegau Chweched Dosbarth 2021.

# Cwestiwn Ymchwil

**Adolygiad cyflym o strategaethau i gefnogi dysgu a llesiant ymhlith dysgwyr 16-19 oed sydd wedi cael bylchau sylweddol yn eu haddysg o ganlyniad i'r pandemig COVID-19**

Gwnaethon ni edrych am dystiolaeth ar draws y ddau gwestiwn

**Mae yna 2 ran i'r cwestiwn:**

Cwestiwn 1:
Pa **ddulliau cefnogi** ar gyfer dysgwyr **16-19 oed** sy'n **llwyddo i alluogi** unigolion i **wneud cynnydd mewn dysgu**?

Cwestiwn 2:
Pa **ddulliau cefnogi** sydd **o fudd** wrth **wella llesiant** dysgwyr **16-19 oed mewn lleoliadau ôl-16**?

# Graddau'r dystiolaeth

## Cwestiwn 1: Gwneud cynnydd mewn dysgu

Nododd y chwiliadau:

- **12 adolygiad systematig** (3-19 oed / cyn COVID-19)
- **1 adolygiad cyflym, 1 protocol** (16-19 oed / ôl COVID-19)
- **4 adroddiad sefydliadol ehangach y DU** (yn cynnwys adrannau'n edrych ar bobl 16-19 oed / ôl COVID-19)

## Cwestiwn 2: Llesiant myfyrwyr

Nododd y chwiliadau

- **3 adolygiad systematig, 1 adolygiad cyflym** (16-19 oed / cyn COVID-19)
- **2 adolygiad cyflym** (16-19 oed / ôl COVID-19)
- **2 adroddiad sefydliadol ehangach y DU** (yn cynnwys adrannau'n edrych ar bobl 16-19 oed / ôl COVID-19)

# Darganfyddiadau Allweddol

## Cwestiwn 1: Gwneud cynnydd mewn dysgu

Ni ddaeth **unrhyw dystiolaeth adolygu systematig uniongyrchol** i'r fei i alluogi gwerthuso strategaethau i gefnogi dysgu ar gyfer dysgwyr **16-19 oed ar ôl y pandemig COVID-19**

# Darganfyddiadau Allweddol

## Cwestiwn 1: Gwneud cynnydd mewn dysgu

Roedd yna dystiolaeth **cyn COVID** o nifer o ddulliau a oedd yn dangos **effaith bositif i ddysgwyr 3-18 oed** i'w galluogi i wneud cynnydd mewn dysgu

- Cefnogaeth ychwanegol gan diwtor
  - gwersi un-i-un
  - gwersi mewn grwpiau bach
  - mentora
  - sesiynau cefnogaeth gan gymheiriaid, dan arweiniad dysgwyr

- Oriau gwersi ychwanegol
  - estyn y diwrnod addysgu
  - addysgu ychwanegol yn ystod gwyliau ysgol
  - ymyriadau penodol yn yr haf

# Darganfyddiadau Allweddol

## Cwestiwn 1: Gwneud cynnydd mewn dysgu

- Gwersi mathemateg a Saesneg ychwanegol
  - Llythrennedd Saesneg a mathemateg yn yr ystafell ddosbarth
  - Ymyriadau ysgrifennu ar gyfer llythrennedd Saesneg
  - Gwreiddio mathemateg Lefel 2 mewn astudiaethau galwedigaethol

- Metaymwybyddiaeth a hunanreoli

(gwybodaeth a phrosesau meddwl ynglŷn â'ch dysgu eich hun)

- Ysgoloriaethau, cymorth ariannol, gwybodaeth am golegau
  - mae dysgwyr sydd â photensial uchel ond sydd ar incwm isel yn symud ymlaen i addysg uwch yn UDA

# Darganfyddiadau Allweddol

## Cwestiwn 1: Gwneud cynnydd mewn dysgu

Gwnaeth y dystiolaeth ddangos nad oedd **tynnu myfyrwyr o wersi craidd** i gael **gwersi Saesneg ychwanegol o unrhyw fudd**

**Ni ddaeth unrhyw dystiolaeth i'r fei** i alluogi gwerthuso cefnogaeth tiwtor ychwanegol i'r **grŵp cyfan** a **chefnogaeth tiwtor ychwanegol ar-lein**

# Darganfyddiadau Allweddol

## Cwestiwn 2: Llesiant myfyrwyr

**Ni ddaeth unrhyw dystiolaeth adolygu systematig uniongyrchol** i'r fei a oedd yn ymchwilio'n uniongyrchol i ddulliau cefnogi ôl COVID-19 i wella **llesiant** dysgwyr **16-19 oed** mewn lleoliadau ôl-16

# Darganfyddiadau Allweddol

## Cwestiwn 2: Llesiant myfyrwyr

**Roedd tystiolaeth cyn COVID wedi dod i'r casgliad bod yna nifer o ddulliau a oedd o fudd wrth wella llesiant myfyrwyr**

- sgrinio a llwybrau atgyfeirio effeithiol i driniaeth glinigol i'r rheini yn eu harddegau hwyr a'r rheini mewn colegau chweched dosbarth
- cwnsela, gweithgarwch corfforol ac ymyriadau â'r nod o wella cwsg ar draws pob cyfnod allweddol

# Darganfyddiadau Allweddol

## Cwestiwn 2: Llesiant myfyrwyr

- ymyriadau ymwybyddiaeth ofalgar

Gwelwyd bod y rhain yn llwyddiannus wrth wella llesiant i amrywiaeth eang o ddysgwyr, gan gynnwys rhai 4-15 oed a ieuenctid mewn colegau chweched dosbarth.

Mae'r **dystiolaeth gryfaf** o effaith fuddiol **ymwybyddiaeth ofalgar** yn bodoli mewn **addysg ôl-uwchradd**

**Cymysg oedd y dystiolaeth** a ddaeth i'r fei ar gyfer **rhaglenni atal seiliedig ar therapi a dysgu cymdeithasol ac emosiynol**

Ni ddaeth **unrhyw dystiolaeth** i'r fei i werthuso cefnogaeth y teulu a ffrindiau

# Goblygiadau i Bolisi

Daw tystiolaeth ar gyfer strategaethau i gefnogi dysgu a llesiant dysgwyr 16-19 oed sydd wedi cael amhariad sylweddol ar eu haddysg o **astudiaethau a gynhaliwyd cyn y pandemig COVID-19**

Mae'r pandemig wedi dod â set unigryw o amodau at ei gilydd, sy'n amharu ar addysg ac sydd hefyd yn amharu ar feysydd amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol ac emosiynol bywydau pobl ifanc a'u teuluoedd. Nid yw'n bosibl dweud a fydd ymyriad a oedd yn llwyddiannus mewn amgylchiadau gymharol "normal" yr un mor llwyddiannus yn yr amseroedd anodd hyn

# Goblygiadau i Bolisi

Er mai eithaf prin yw'r dystiolaeth i gefnogi hyn, mae **gweithgarwch cefnogi sy'n targedu** dysgwyr o'r **cefndiroedd economaidd-gymdeithasol mwyaf amddifad** yn cael effaith bositif sylweddol ar eu cynnydd

**Mae angen ymchwil bellach** i werthuso effeithiolrwydd ymyriadau a gyflwynwyd i gefnogi dysgu a llesiant dysgwyr 16-19 oed y mae'r pandemig wedi effeithio arnyn nhw

# Cyfyngiadau'r dystiolaeth sydd ar gael

Adrodd gwael ar ddulliau sy'n golygu mai sgôr isel sydd wedi'i rhoi o ran ansawdd mwyafrif y gwaith sy'n darparu sail ar gyfer yr adolygiad cyflym hwn

Mae'r mwyafrif yn tynnu ar dystiolaeth cyn y pandemig oddi wrth boblogaethau iau

Ni arfarnwyd ansawdd yr adroddiadau sefydliadol; deuir i gasgliad ynglŷn â gwerth eu hargymhellion a'u cynigion polisi ar sail enw da y sefydliadau eu hunain am wybodaeth ac arbenigedd proffesiynol

Wales COVID-19 Evidence Centre
Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru

**RE**search

**GENER**ation

**A**ssimilation

**T**ransfer

**E**mbedding

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

# E-bost WCEC:

[WC19EC@cardiff.ac.uk](mailto:WC19EC@cardiff.ac.uk)

# Gwefan WCEC:

[Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru | Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (ymchwiliechydagofalcymru.org)]

*Mae WCEC ac awduron y gwaith hwn yn datgan nad oes ganddynt unrhyw fuddiannau sy'n gwrthdaro.*

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government